



Academic & Student Support Services
Academic Registrar Simon Wright LLB
Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
Cofrestrwydd Academaidd Simon Wright LLB

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE

Tel *Ffôn* I +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE

Anfonwyd drwy e-bost at e.price@abertawe.ac.uk

31 Awst 2016

Annwyl Dr Price,

Parthed: Ymateb Sefydliad: Adroddiad Blynyddol Arholwyr Allanol 2015 – 2016

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl derbyn eich Adroddiad Arholwr Allanol ar gyfer yr Ystafell Newyddion 1 a 2.

Mae'r Ysgol wedi ystyried eich Adroddiad yn unol â'n gweithdrefnau cymeradwy. Rwyf bellach, felly, mewn sefyllfa i ymateb ar ran yr Is-Ganghellor i'r prif bwyntiau a godwyd gennych.

Hoffem ddiolch i Dr Elain Price am ei harchwiliad manwl o fodiwlau iaith Gymraeg Yr Ystafell Newyddion 1 ac Ystafell Newyddion 2. Gan fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn JOMEC yn dal i fod yn ei dyddiau cynnar, mae'n hynod o ddefnyddiol cael safbwynt allanol gan rywun sy'n darparu'n Gymraeg mewn sefydliad arall. Fel y nodir, ac yn wir y croesewir yn adroddiad Dr Price, rydym yn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach ac mae nifer calonogol o fyfyrwyr yn cofrestru ar y modiwlau neu'n dewis astudio'r radd gyfun Cymraeg a Newyddiaduraeth.

Caiff ein cysylltiadau agos â'r diwydiant eu cydnabod a'u canmol, ynghyd â 'naws Gymreig y pynciau a drafodir' a'r cwestiynau traethawd 'heriol a chyfoes' a osodir. Mae'r arholwr hefyd yn hoffi'r ychwanegiadau i'r tasgau newyddion ar gyfer Yr Ystafell Newyddion 2, megis dyfeisio hashnod Trydar a thrafod materion megis caniatâd. Dywedodd Dr Price, 'rwy'n gadarnhaol bod y myfyrwyr yn cael profiadau gwerth chweil ar y modiwlau hyn' ac mae'r adborth gan y myfyrwyr yn hynod o gadarnhaol.

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE
Tel *Ffôn* I +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE
Tel *Ffôn* I +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Mae'n bwysig nodi, yn y cyfnod byr hwn, i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg weld nifer o newidiadau ymysg y staff. Penodwyd Cyfarwyddwr y Cwrs, Sian Morgan Lloyd, a arweiniodd Yr Ystafell Newyddion 2, ym mis Hydref. Daeth Sian Powell yn arweinydd y modiwl Ystafell Newyddion 1 yn dilyn rhagflaenydd Sian Morgan Lloyd. Mae'r modiwl hwn yn destun rhywfaint o feirniadaeth gan yr arholwr allanol, ac er y byddwn wrth reswm yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, Sian Morgan Lloyd fydd yn arwain y ddau fodiwl y flwyddyn academaidd nesaf.

Materion y tynnwyd sylw atynt:

Materion wedi eu Hamlygu

Strwythur y Rhaglen:

Mae Dr Price yn cydnabod y cynnydd a wna myfyrwyr o astudio dau fodiwl Yr Ystafell Newyddion. Dyma yw'n bwriad, ac rydym wedi strwythuro'r modiwlau a'r tasgau asesedig yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'r arholwr yn teimlo y gallwn gynnig rhagor o amrywiaeth i sicrhau bod myfyrwyr yn meithrin amrywiaeth o sgiliau gwahanol. Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn, ac fe fyddwn yn sicrhau bod rhagor o amrywiaeth yn y flwyddyn academaidd nesaf. Mae newyddiaduraeth drwy gyfrwng y we, fodd bynnag, yn elfen o'r ddau fodiwl ac mae'n hanfodol i newyddiaduraeth gyfoes. Yn hytrach na newid tasg asesedig yr erthygl yn llwyr, cynigwn y dylid canolbwyntio ar ysgrifennu i gynulleidfa benodol ym mhob darn o waith. Mae deall anghenion cynulleidfaoedd yn amcan dysgu bwriadol o'r ddau fodiwl, ac mae'r erthygl a ysgrifennir yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddangos eu dealltwriaeth, gan ymarfer sgiliau newyddiadurol perthnasol a chyfredol. Mae'r ddau fodiwl yn edrych ar newyddiaduriaeth mewn print, radio a theledu, ac mae myfyrwyr yn ehangu ar eu gwybodaeth ac yn ymgysgu â phob cyfrwng.

Y Broses Asesu:

Mae'n braf gweld sylwadau cadarnhaol yr arholwr allanol ar ystod eang ein hasesiadau, â chanmoliaeth arbennig ar bynciau'r traethawd - maes yr ydym wedi gwella'n sylweddol arno ers yr adroddiad diwethaf. Byddwn yn ymdrechu i gynnig mwy fyth o amrywiaeth o ran un dasg greadigol, fel yr amlinellir uchod. Mae Dr Price yn teimlo bod gwendidau o ran cywiro gwallau iaith myfyrwyr. Mae'n cymeradwyo ein hymdrech i nodi camgymeriadau gramadegol a chystrawennol yn y paragraffau adborth cyffredinol, ond byddai'n annog cywiriadau ar y testun ei hun. Er mwyn helpu myfyrwyr i ddysgu a gwella, rydym yn croesawu argymhelliad Dr Price, ac fe fyddwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn trwy gyfrwng Grademark. Fodd bynnag, rhaid gwylio rhag dinistrio hyder wrth gywiro gwallau ieithyddol, ac mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r iaith Gymraeg. Un o amcanion creiddiol y ddarpariaeth yw datblygu hyder pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith ac ysgrifennu yn Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gynnwys Cymraeg (yn enwedig ar-lein) gan ystod eang o bobl a fydd yn mynd ymlaen i boblogi'r gweithlu a defnyddio'r sgiliau a'r hyder yr ydym ni wedi helpu ei feithrin ynddynt mewn ffyrdd ystyrlon a pherthnasol.

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE
Tel Ffôn I +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Rydym yn cytuno â Dr Price, felly, ei bod yn bwysig tynnu sylw at gamgymeriadau mewn ffordd fwy manwl gywir, ond na ddylid cosbi myfyrwyr ymhellach. Rydym hefyd yn cynnig adborth wyneb yn wyneb ac yn trafod ffyrdd o wella'n gyson, gan gynnwys gwella ymwybyddiaeth a defnydd myfyrwyr o ramadeg. Nid yw lefel A Cymraeg yn ofniad i astudio'r radd gyfun, ac rydym yn rhagweld y bydd gan fyfyrwyr hyder a gallu amrywiol o ran eu hiaith ar y rhaglen radd hon.

Mae'r arholwr yn pwysleisio'r angen am feini prawf a diffiniad cliriach o ran sut y caiff marciau terfynol asesiadau eu cyfrifo. Rydym yn cytuno â hyn, gan ei wneud yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Rydym yn falch o weld fod yr arholwr wedi gweld mwy o dystiolaeth o ail farcio eleni, ac fe fyddwn yn mabwysiadu ei hargymhelliad o lunio dogfen benodol ar gyfer system fwy eglur i fodloni'r gofyniad hwn.

Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn:

Mae'n galonogol gweld nad yw rhai o'r pryderon blaenorol yn bodoli bellach, ac rydym yn teimlo, o ystyried y newidiadau staffio a phenodi rhywun newydd i'r byd academaidd, bod llawer i'w ganmol ar fodiwlau Yr Ystafell Newyddion.

Caiff dau fodiwl Cymraeg newydd eu cyflwyno'r flwyddyn academaidd nesaf wrth i'r ddarpariaeth barhau i wella ac esblygu. Rydym wrth ein bodd â'r adborth diweddar gan y diwydiant ei hun, lle mae llawer o raddedigion Yr Ystafell Newyddion yn gweithio bellach.

Rydym yn hyderus y caiff fyfyrwyr adborth digonol ar eu gwaith asesedig, ond yn deall i'r arholwr allanol beidio ag ateb yn gadarnhaol ar y rhestr wirio oherwydd ei phryderon o ran adborth ieithyddol. Rydym wedi trafod hyn sawl gwaith ac wedi cytuno ar strategaethau a fydd yn cael eu rhoi ar waith y flwyddyn nesaf.

Rydym yn gobeithio bod yr ymateb hwn yn foddhaol ac fe hoffem ddiolch i Dr Elain Price unwaith eto am ei chefnogaeth barhaus i'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu.

Camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2016-17

- ***Sicrhau bod amrywiaeth o ran modiwlau ac asesiadau Yr Ystafell Newyddion;***
- ***Cynhyrchu meini prawf marcio clir;***
- ***Cynnig adborth manylach ar iaith a gramadeg;***
- ***Creu dogfen benodol i ddangos dystiolaeth o ail farcio.***

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn foddhaol, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer y rhaglen.

Er mwyn bodloni disgwyliadau Côd Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), bydd Adroddiad Blynyddol yr Arholwr Allanol a'r Ymateb hwn gan y Sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol, a byddant ar gael i'r holl fyfyrwyr a staff.

Drwy ddarparu Ymateb Sefydliad ffurfiol, nid yw'n fwriad gan y Brifysgol orfodi cyfathrebu uniongyrchol rhwng Ysgolion a'u Harholwyr Allanol. Caiff Ysgolion eu hannog i drafod unrhyw faterion manwl sy'n codi yn eu Hadroddiadau gyda'u Harholwyr Allanol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau dyfarniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i raglenni.

Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich sylwadau ac am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn gywir,



Mr Simon Wright
Academic Registrar